**GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A5, YR A55, YR A494 A'R A470, Y B5125 (CHESTER ROAD) A FFORDD DDIDDOSBARTH (GOGLEDD-DDWYRAIN CYMRU) (TERFYNAU CYFLYMDER 20 MYA A 30 MYA) 202-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 84(1)(a), 84(2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd cyflwyno terfynau cyflymder 20 mya a 30 mya ar y darnau o gefnffyrdd a ffyrdd eraill a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Hysbysiad hwn.

Caiff Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Rhuthun, Sir Ddinbych) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2016 (O.S. 2016/1015 (Cy. 244)), Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Llanbedr Dyffryn Clwyd, Sir Ddinbych) (Terfyn Cyflymder 30 mya) 2018 (O.S. 2018/405 (Cy. 72)), Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Gwyddelwern, Sir Ddinbych) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2018 (O.S. 2018/533 (Cy. 91)) a Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Glyndyfrdwy, Sir Ddinbych) (Terfyn Cyflymder 30 mya) 2021 (O.S. 2021/679 (Cy. 171)) eu dirymu gan y Gorchymyn arfaethedig.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 6 Mawrth 2023 ymlaen gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, y Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, y planiau a'r Gorchmynion sy'n cael eu dirymu, yn rhad ac am ddim, yn:

- Llyfrgell Brychdyn, 119 Broughton Hall Road, Brychdyn, Caer CH4 0QQ
- Llyfrgell Llangollen, Y Capel, 19-21 Stryd y Castell, Llangollen LL20 8NU
- Llyfrgell Rhuthun, Stryd y Llys, Rhuthun LL15 1DS
- Llyfrgell Corwen, Ffordd Llundain, Corwen LL21 0DR
- Llyfrgell Blaenau Ffestiniog, Canolfan Maenofferen, Blaenau Ffestiniog LL41 3DL
- Llyfrgell Penmaenmawr, Ffordd Bangor, Penmaenmawr LL34 6DA.

Gellir gweld y dogfennau hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim oddi wrth y Gangen Orchmynion yn y cyfeiriad isod, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1606156.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gan nodi ar ba sail y'u gwneir a chan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1606156, drwy e-bost i

**THE A5, A55, A494 & A470 TRUNK ROADS, THE B5125 (CHESTER ROAD) AND AN UNCLASSIFIED ROAD (NORTH EAST WALES) (20 MPH & 30 MPH SPEED LIMITS) ORDER 202-**

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 84(1)(a), 84(2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to introduce 20 mph and 30 mph speed limits on the lengths of the trunk roads and other roads specified in the Schedules to this Notice.

The A494 Trunk Road (Ysgol Brynhyfryd and Ruthin School, Denbighshire) (Part-Time 20 mph Speed Limit) Order 2016 (S.I. 2016/1015 (W. 244)), the A494 Trunk Road (Llanbedr Dyffryn Clwyd, Denbighshire) (30 mph Speed Limit) Order 2018 (S.I. 2018/405 (W. 72)), the A494 Trunk Road (Gwyddelwern, Denbighshire) (Part-time 20 mph Speed Limit) Order 2018 (S.I. 2018/533 (W. 91)) and the A5 Trunk Road (Glyndyfrdwy, Denbighshire) (30 mph Speed Limit) Order 2021 (S.I. 2021/679 (W. 171)) will be revoked by the proposed Order.

During a period of 21 days from 6 March 2023 a copy of the proposed Order, the Statement of Reasons for making the Order, the plans and the Orders being revoked may be inspected, free of charge, at:

- Broughton Library, 119 Broughton Hall Road, Broughton, Chester CH4 0QQ
- Llangollen Library, The Chapel, 19-21 Castle Street, Llangollen LL20 8NU
- Ruthin Library, Record Street, Ruthin LL15 1DS
- Corwen Library, London Road, Corwen LL21 0DR
- Blaenau Ffestiniog Library, Canolfan Maenofferen, Blaenau Ffestiniog LL41 3DL
- Penmaenmawr Library, Bangor Road, Penmaenmawr LL34 6DA.

The documents can also be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or obtained free of charge from Orders Branch at the address below, quoting reference number qA1606156.

Objections, specifying the grounds on which they are made and quoting reference number qA1606156, must be sent by e-mail to

Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu yn ysgrifenedig i'r Gangen Orchmynion yn y cyfeiriad isod erbyn 27 Mawrth 2023.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori, caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi hyn pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth. Bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu ac, os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn, y Planiau a'r Datganiad o'r Rhesymau, yn rhad ac am ddim, drwy ysgrifennu at: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu drwy anfon e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1606156 neu gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Terfyn cyflymder 20 mya**

Y darn o gefnffordd yr A494 yng Ngwyddelwern, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 58 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Bryn Elwern hyd at bwynt 147 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o'r A5 yn Stryd y Bont, Corwen, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 12 metr i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd fynediad Ystad Ddiwydiannol Iard yr Orsaf hyd at bwynt 77 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

TransportOrdersBranch@gov.wales or in writing to Orders Branch at the address below by 27 March 2023.

Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with people and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process, we may pass information to them, including information you have provided and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish for your personal data to be forwarded to third parties, you should state this when submitting your correspondence. The Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

**A copy of this Notice, the Order, Plans and Statement of Reasons can be obtained in larger print, free of charge, by writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or emailing TransportOrdersBranch@gov.wales quoting reference number qA1606156 or can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE 1**
**20 mph speed limit**

The length of the A494 trunk road at Gwyddelwern, Denbighshire that extends from a point 58 metres west of the centre-point of its junction with Bryn Elwern to a point 147 metres west of the centre-point of that junction.

The length of the A5 at Bridge Street, Corwen, Denbighshire that extends from a point 12 metres west of the centre-point of its junction with Station Yard Industrial Estate access road to a point 77 metres east of the centre-point of that junction.

**ATODLEN 2**
**Terfyn cyflymder 30 mya**

**Yr A5**

Y darn o gefnffordd yr A5 o'r enw Ffordd Caergybi, Froncysyllte, Wrecsam sy'n ymestyn o bwynt 64 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd yr Adwy (y B5434) hyd at bwynt 256 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A5 yng Nglyndyfrdwy, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 130 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth i Rhewl hyd at bwynt 428 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A5 yng Nglyndyfrdwy, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 54 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n gyfagos i Tanyffordd Cottage hyd at bwynt 8 metr i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n gyfagos i'r eiddo o'r enw Glyndŵr.

**Yr A55**

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A55 ym Mrychdyn, Sir y Fflint sy'n ymestyn o bwynt 66 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Brychdyn hyd at ei chyffordd â'r gylchfan honno.

Y darn o gerbytffordd tua'r gollewin cefnffordd yr A55 ym Mrychdyn, Sir y Fflint sy'n ymestyn o bwynt 116 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Chylchfan Brychdyn hyd at ei chyffordd â'r gylchfan honno.

Cerbytffordd gylchredol gyfan Cylchfan Brychdyn (yr A55/y B5125), Sir y Fflint.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A55 ym Mhenmaen-bach, Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n ymestyn o bwynt 80 metr i'r de-orllewin o bwynt sy'n sy'n gyfochrog â phorth gorllewinol twnnel rheilffordd Penmaen-bach hyd at bwynt 307 o fetrau i'r de-ddwyrain o bwynt sy'n gyfochrog â phorth dwyreiniol y twnnel rheilffordd hwnnw.

**Yr A494**

Y darn o gefnffordd yr A494 yng Ngwyddelwern, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 41 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at ffordd bengaead Garreg Lwyd hyd at bwynt 390 o fetrau i'r de o ganolbwynt y gyffordd honno.

**SCHEDULE 2**
**30 mph speed limit**

**A5**

The length of the A5 trunk road known as Holyhead Road, Froncysyllte, Wrexham that extends from a point 64 metres west of the centre-point of its junction with Gate Road (B5434) to a point 256 metres west of the centre-point of that junction.

The length of the A5 trunk road at Glyndyfrdwy, Denbighshire that extends from a point 130 metres west of the centre-point of its junction with the unclassified road to Rhewl to a point 428 metres west of the centre-point of that junction.

The length of the A5 trunk road at Glyndyfrdwy, Denbighshire that extends from a point 54 metres east of the centre-point of its junction with the unclassified road adjacent to Tanyffordd Cottage to a point 8 metres west of the centre-point of its junction with the unclassified road adjacent to the property known as Glyndwr.

**A55**

The length of the eastbound carriageway of the A55 trunk road at Broughton, Flintshire that extends from a point 66 metres south-east of the centre-point of the Broughton Roundabout to its junction with that roundabout.

The length of the westbound carriageway of the A55 trunk road at Broughton, Flintshire that extends from a point 116 metres south-east of the centre-point of its junction with Broughton Roundabout to its junction with that roundabout.

The entire circulatory carriageway of Broughton Roundabout (A55/B5125), Flintshire.

The length of the eastbound carriageway of the A55 trunk road at Penmaenbach, Conwy County Borough that extends from a point 80 metres south-west of a point parallel with the western portal of the Penmaenbach railway tunnel to a point 307 metres south-east of a point parallel with the eastern portal of that railway tunnel.

**A494**

The length of the A494 trunk road at Gwyddelwern, Denbighshire that extends from a point 41 metres south of the centre-point of its junction with the unclassified road leading to Garreg Lwyd cul-de-sac to a point 390 metres south of the centre-point of that junction.

Y darn o gefnffordd yr A494 yn Llanbedr Dyffryn Clwyd, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 39 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Lôn Cae Glas hyd at bwynt 283 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Lôn y Mynydd.

The length of the A494 trunk road at Llanbedr Dyffryn Clwyd, Denbighshire that extends from a point 39 metres south-east of the centre-point of its junction with Lôn Cae Glas to a point 283 metres south of the centre-point of its junction with Lôn y Mynydd.

**<u>Yr A470</u>**

**<u>A470</u>**

Y darn o gefnffordd yr A470 o'r enw Ffordd Llanrwst, Llansanffraid Glan Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n ymestyn o bwynt 81 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Glan-y-Môr hyd at bwynt 217 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd ag Abbeyfield.

The length of the A470 trunk road known as Llanrwst Road, Glan Conwy, Conwy County Borough that extends from a point 81 metres south of the centre-point of its junction with Glan-y-Môr to a point 217 metres north-east of the centre-point of its junction with Abbeyfield.

Y darn o gefnffordd yr A470 yn Nolwyddelan, Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n ymestyn o bwynt 334 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r fynedfa i Meredith Terrace hyd at bwynt 8 metr i'r gorllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

The length of the A470 trunk road at Dolwyddelan, Conwy County Borough that extends from a point 334 metres west of the centre-point of its junction with the access to Meredith Terrace to a point 8 metres west of the centre-point of that junction.

Y darn o gefnffordd yr A470 yn Nolwyddelan, Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n ymestyn o bwynt 4 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd ag Allt Singrug hyd at bwynt 336 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

The length of the A470 trunk road at Dolwyddelan, Conwy County Borough that extends from a point 4 metres east of the centre-point of its junction with Allt Singrug to a point 336 metres east of the centre-point of that junction.

Y darn o gefnffordd yr A494 o'r enw Ffordd Conwy, Llansanffraid Glan Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n ymestyn o bwynt 115 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt cylchfan cyffordd y Black Cat hyd at ei chyffordd â chyffordd cylchfan Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy yr A55.

The length of the A494 trunk road known as Conwy Road, Glan Conwy, Conwy County Borough that extends from a point 115 metres south-west of the centre-point of the Black Cat junction roundabout to its junction with the A55 Glan Conwy Interchange roundabout junction.

Cerbytffordd gylchredol gyfan Cylchfan y Black Cat yr A470/yr A547, Bwrdeistref Sirol Conwy.

The entire circulatory carriageway of the A470/A547 Black Cat Roundabout, Conwy County Borough.

Cerbytffordd gylchredol gyfan cylchfan Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy yr A470/yr A55, Bwrdeistref Sirol Conwy.

The entire circulatory carriageway of the A470/A55 Glan Conwy Interchange Roundabout, Conwy County Borough.

**<u>Y B5125</u>**

**<u>B5125</u>**

Y darn o'r B5125 (Chester Road) ym Mrychdyn, Sir y Fflint sy'n ymestyn o bwynt 115 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Brychdyn hyd at ei chyffordd â'r gylchfan honno.

The length of the B5125 (Chester Road) at Broughton, Flintshire that extends from a point 115 metres north-west of the centre-point of Broughton Roundabout to its junction with that roundabout.

**<u>Ffordd ddiddosbarth</u>**

**<u>Unclassified road</u>**

Y darn o'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at Barc Siopa Brychdyn ym Mrychdyn, Sir y Fflint sy'n ymestyn o bwynt 63 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Brychdyn hyd at ei chyffordd â'r gylchfan honno.

The length of the unclassified road leading to Broughton Shopping Park at Broughton, Flintshire that extends from a point 63 metres north-east of the centre-point of Broughton Roundabout to its junction with that roundabout.